# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 4

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

### 39 Gwaith datblygu ac arbrofion: amodau

(1) Dim ond os yw'r amodau yn yr adran hon wedi eu bodloni y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 38.

(2) Yr amod cyntaf yw bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y bydd y cwricwlwm a gaiff ei weithredu i'r disgyblion neu'r plant o ganlyniad i'r cyfarwyddyd—

(a) yn galluogi pob disgybl neu blentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,

(b) yn sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol ar gyfer pob disgybl neu blentyn,

(c) yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob disgybl neu blentyn,

(d) yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl neu blentyn (os oes rhai), ac

(e) yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i bob disgybl neu blentyn.

(3) Yr ail amod, yn achos cyfarwyddyd sy'n ymwneud ag ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir, yw bod y cyfarwyddyd yn cael ei roi—

(a) ar gais a wneir gan y corff llywodraethu gyda chytundeb yr awdurdod lleol,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 39 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) ar gais a wneir gan yr awdurdod lleol gyda chytundeb y corff llywodraethu, neu

(c) ar gynnig a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol.

(4) Yr ail amod, yn achos cyfarwyddyd sy'n ymwneud ag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir, yw bod y cyfarwyddyd yn cael ei roi—

(a) ar gais a wneir gan y corff llywodraethu, neu

(b) gyda chytundeb y corff llywodraethu.

(5) Yr ail amod, yn achos cyfarwyddyd sy'n ymwneud ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yw bod y cyfarwyddyd yn cael ei roi—

(a) ar gais a wneir gan yr awdurdod lleol gyda chytundeb darparwr yr addysg, neu

(b) ar gynnig a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr awdurdod lleol a darparwr yr addysg.

(6) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriadau at yr awdurdod lleol, mewn perthynas ag ysgol, yn gyfeiriadau at yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;

(b) mae cyfeiriadau at yr awdurdod lleol, mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yn gyfeiriadau at yr awdurdod lleol sy'n sicrhau'r addysg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 39 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 39 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(c), **Atod.**

**I3** A. 39 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(c)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 39 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- s. 39 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(c)
- s. 39 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
- s. 39 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)